

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Adroddiad Monitro Cyflogaeth 2022-2023

This document is also available in English.

### 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal, gan werthfawrogi'r ystod o safbwyntiau a ddaw gydag amrywiaeth a darparu amgylchedd cynhwysol lle mae'r holl staff a phob aelod o'n cymunedau'n cael eu trin gydag urddas a pharch. Yr ydym eisiau sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, yr ydym yn cydnabod bod rhaid i ni fonitro canlyniadau mewn cyflogaeth i sicrhau nad ydym yn gwahaniaethu heb yn wybod trwy gymhwyso ein polisiau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canlyniadau ar gyfer 2022-2023 yn unol â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithredu 2020-2024, y gellir ei ganfod ar ein gwefan yma: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)

Er mwyn diwallu ein Dyletswyddau Penodol o dan Ddeddfwriaeth Cydraddoldeb, mae'n rhaid i ni fonitro nodweddion gwarchoddedig ar gyfer y canlynol:

- Gweithwyr sy'n gweithio i ni ar hyn o bryd ar 31 Mawrth 2023
- \*Dynion a merched fesul swydd, graddfa, cyflog, math o gontract, patrymau gwaith
- Ymgeiswyr am swyddi dros y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi gwneud cais yn fewnol i newid swydd o fewn yr awdurdod – olrhain ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus
- Gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer a lwyddodd i gyflwyno cais llwyddiannus
- Gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant
- Gweithwyr sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno fel achwynydd neu fel unigolyn y gwnaed cwyn yn ei erbyn
- Gweithwyr sy'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sy'n gadael a'u rhesymau dros adael

\*Mae'r wybodaeth hon yn ofynnol mewn perthynas â dynion a merched yn unig

## 2. Data Monitro Cyflogaeth

Yr ydym yn casglu Data Monitro ar gyfer y meysydd canlynol:

- Oedran
- Rhyw
- Ailbennu Rhywedd
- Hil (Tarddiad Ethnig / Cenedligrwydd)
- Anabledd
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Crefydd neu Gred neu ddim Cred
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Statws Priodasol neu Bartneriaeth Sifil
- Gallu yn y Gymraeg (ddim wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn)
- Cyfrifoldeb Gofalwr (ddim wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn)

Cymerwyd camau bob blwyddyn i wella'r data monitro cydraddoldeb yr ydym yn ei gadw ar gyfer gweithwyr presennol. Yr ydym yn parchu hawl gweithwyr i gael eu cyfrif os ydynt yn dymuno hynny, ond hefyd yn cynnig y cyfle iddynt nodi ei bod yn 'well ganddynt beidio â dweud'. Golyga hyn ei bod yn bosibl nad yw'r niferoedd yn adlewyrchu ein gweithlu i gyd yn llwyr. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y data, lle y'i datgelwyd, ar bob un o'r nodweddion gwarchoddedig. Cyflwynwyd recriwtio ar y we yn 2015, gan wneud darparu'r data yn ofynnol, ac yr ydym wedi gweld gwelliant cyson yn y data a gasglwyd ers hynny. Yr ydym wedi dechrau datblygu arolwg i'w anfon i'r holl staff gyda'r nod o ddiweddarau'r data sydd gennym a llenwi bylchau yn y data lle bo'n bosibl. Fodd bynnag, bydd staff yn cadw'r hawl i ddatgan bod yn 'well ganddynt beidio â dweud' yn y darn hwn o waith.

Oherwydd y nifer fechan o weithwyr Du, Asiaidd ac o darddiad Ethnig Lleiafrifol, mae'r adroddiad hwn at ei gilydd yn dangos y data wedi ei agregu yn y categori: Lleiafrif Ethnig (heb acronymau), sef y term a ffefrir a nodwyd drwy ymgynghoriad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae hyn yn osgoi'r posibilrwydd o adnabod yr unigolion o'r data, ond caiff data heb ei agregu ar bob grŵp ethnig lleiafrifol ei gasglu o hyd, a dangosir dadansoddiad llawn, heb ei agregu, mewn canrannau ar dudalennau 13 a 14. O fewn pob tabl mae unrhyw ffigur sy'n llai na phump wedi ei ddisodli gan serennig \* i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion. Nid yw'r cyfansymiau wedi eu newid.

Mae rhai tablau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r dyddiad penodol y casglwyd y data, tra bo tablau eraill yn dangos perfformiad ar draws blwyddyn ariannol gyfan. Mae yna rai newidiadau i deitlau gwasanaethau o fersiynau blaenorol yr adroddiad, sef: Pobl a Pherfformiad (Adnoddau Dynol Corfforaethol a Gwella a Datblygu Corfforaethol gynt) a Chyllid Corfforaethol (Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol a Refeniw a Budd-daliadau gynt).

### 3. Gwybodaeth Cydraddoldeb Staff: Canfyddiadau Allweddol (cymariaethau gyda 2019/20, sef amser dechrau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol)

#### Oedran

Mae cyfran y gweithwyr yng nghategoriâu ystod oedran 25-34 (18% i 16%) a 45-54 (28% i 25%) wedi gostwng ers 2019/20. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd yng nghategoriâu ystod oedran 35-44 (23% i 24%), 55-64 (21% i 24%) a 65+ (4% i 5%). Mae cyfran y gweithlu cyfan yng nghategori ystod oedran 16-24 wedi aros yn 6% dros y cyfnod hwn. Mae gweithwyr yn ystod oedran 16-24 yn parhau i ffurfio cyfran uwch o swyddi achlysurol (14%) o gymharu â swyddi cyfnod penodol a pharhaol (2%).

#### Anabledd

Yr ydym bellach yn cadw data am anabledau ar gyfer 54% o'r staff, o gymharu â 48% yn 2019/20. Dros y cyfnod mae'r gyfran o staff anabl (staff sydd wedi datgelu eu statws anabledd) wedi cynyddu o 1.6% yn 2019/20 i 2.2% yn 2022/23. Gwnaed 159 o geisiadau gan ymgeiswyr anabl yn 2022/23, a oedd yn 4.8% o'r holl geisiadau. Y mae hyn yn uwch nag yn 2019/20, pan gafwyd 102 o geisiadau gan ymgeiswyr anabl (3.46% o'r holl ymgeiswyr).

#### Ethnigrwydd

Ar hyn o bryd yr ydym yn cadw data ar gyfer 59% o staff ynglŷn ag ethnigrwydd – cynnydd o 6% ers 2019/20. Mae cyfran y gweithwyr ethnig lleiafrifol wedi cynyddu o 1.57% o'r holl weithwyr yn 2019/20 i 2.18% yn 2022/23. Gwnaed 71 o geisiadau gan bobl ethnig lleiafrifol yn 2022/23, a oedd yn 2.1% o'r holl geisiadau. Y mae hyn yn uwch nag yn 2019/20, pan gafwyd 33 o geisiadau gan bobl ethnig lleiafrifol (1.4% o'r holl

ymgeiswyr). Yr ydym wedi cynnwys dadansoddiad heb ei agregu o'n gweithlu am y tro cyntaf (yn cynnwys cymhariaeth gyda phoblogaeth oedran gweithio Conwy). Gall hyn weithredu fel meincnod ar gyfer mesur cynnydd mewn gwaith gwrth-hiliaeth ar gyfer y dyfodol.

#### Beichiogrwydd / Mamolaeth

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynodd 4.91% (169) o'r gweithlu MATB1 (Tystysgrif Mamolaeth yn darparu tystiolaeth feddygol o feichiogrwydd a dyddiad geni disgwylidig y babi), ac yr oedd y mwyafrif o'r rhain yn yr Adran Addysg. Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, pan gyflwynodd 3.07% (188) o'r gweithlu MATB1. Yr ydym yn casglu gwybodaeth am feichiogrwydd o'r ffurflen MATB1 pan fo'r gweithiwr yn dal yn y gwaith yn hytrach nag aros nes eu bod ar absenoldeb mamolaeth ac adroddir hyn ar y system AD / Cyflogau.

#### Rhyw

Yr oedd proffil rhywedd cyffredinol y gweithlu (yn cynnwys yr holl weithwyr parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol) yn 2022/23 yn dangos bod 73% yn ferched a 27% yn ddynion. Mae hynny'n aros yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol (gan gynnwys 2019/20), lle mae wedi bod oddeutu 75% yn ferched a 25% yn ddynion. Yr oedd y proffil rhywedd mewn perthynas â'n staff parhaol a staff cyfnod penodol yr un fath â phroffil cyffredinol y gweithlu, ond yr oedd proffil rhywedd staff achlysurol yn 78% yn ferched a 22% yn ddynion.

#### Recriwtio

Cafwyd 3,319 o geisiadau am y 1,097 o swyddi gweigion a hysbysebwyd yn ystod 2022/23 – cyfartaledd o ryw 3 chais ar gyfer pob swydd wag. Mae hyn yn cymharu â 2,316 o geisiadau am 504 o swyddi gweigion yn 2019/20 (4.6 cais am bob swydd wag, ar gyfartaledd). Gweler crynodeb o geisiadau, nifer ar y rhestr fer, a phenodiadau yn ôl nodweddion gwarchoddedig yn Nhabl 12, isod.

#### Ymadawyr

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 ymadawodd 563 o bobl, o gymharu â 459 yn ystod 2019/20. O'r bobl a ymadawodd yn 2022/23, gadawyd Conwy'n wirfoddol gan 424 o bobl (75%) (338 o bobl, 74% yn 2019/20), a gadawodd 134 o bobl (24%) yn anwirfoddol (121 o bobl, 26% yn 2019/20). Mae crynodeb o'r rhai a ymadawodd yn ôl nodweddion gwarchoddedig yn Nhabl 18a, isod.

#### Cyfeiriadedd Rhywiol, Hunaniaeth Rhywedd a Chrefydd

Dyma'r nodweddion y mae gennym y gyfran leiaf o ddata ar eu cyfer, ond mae pob un wedi cynyddu ers 2019/20: Cyfeiriadedd Rhywiol (43% i 51%), Hunaniaeth Rhywedd (37% i 48%) a Chrefydd / Cred (43% i 51%). Cynhwysir rhywfaint o ddadansoddiad yn y data isod, ond bydd hyn yn gwella wrth i ni gynyddu'r data sydd gennym yn y meysydd hyn.

## 4. Gweithwyr sy'n gweithio i ni ar hyn o bryd

### Y gweithlu ar 31 Mawrth 2023

Ar 31 Mawrth 2023, yr oeddem yn cyflogi 4,721 o bobl mewn amrywiaeth o swyddi parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol ledled ein gwasanaethau. Yr oedd gan oddeutu 25% o'r bobl a gyflogid (1,183) ddwy swydd neu fwy gyda'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn. I gyd, yr oedd gan 4,089 o bobl un neu fwy o swyddi parhaol neu swyddi cyfnod penodol, ac yr oedd gan 1,484 o bobl un neu fwy o swyddi achlysurol.


### Proffiliau'r Gweithlu'n seiliedig ar ddata monitro cydraddoldeb a oedd gennym ar 31 Mawrth 2023

Mae'r siartiau cylch isod yn seiliedig ar y data cydraddoldeb sydd ar gael ar gyfer y 4,721 o bobl a oedd yn ffurfio gweithlu Conwy ar 31 Mawrth 2023 – yn cynnwys swyddi parhaol, cyfnod penodol ac achlysurol. Fe'u bwriedir i ddarparu darlun lefel uchel o weithlu'r Cyngor yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd.


Mae'r proffiliau'n nodi'r staff a oedd wedi darparu data monitro cydraddoldeb, yn ôl yr wybodaeth a oedd gennym ar 31 Mawrth 2023, gan gynnwys ymatebion y rhai a oedd yn 'well ganddynt beidio â dweud', ond heb gynnwys yr achosion hynny lle nad oes unrhyw ddata / ymatebion ar hyn o bryd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, yr oedd gennym ddata ar gyfer:

- 100% o'r staff ynglŷn ag oedran a rhyw (cofnodir rhyw fel Gwryw / Benyw yn unol â gofynion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi / Pensiynau)
- 59% o'r staff ynglŷn ag ethnigrwydd
- 54% o'r staff ynglŷn ag anabledd
- 51% o'r staff ynglŷn â chyfeiriadedd rhywiol.


Yr ydym ar hyn o bryd yn datblygu arolwg i ddiweddarau'r data sydd gennym er mwyn gwella ein dealltwriaeth o broffil ein gweithlu. Yr ydym, yn rhan o hyn, yn adolygu'r dewisiadau ymateb a gynigir (yn yr arolwg, a phan gesglir data yn rhan o'r ffurflen gais) i sicrhau bod dewisiadau i bobl allu ysgrifennu eu hateb eu hunain fel bo'n briodol (e.e. mewn perthynas â Chyfeiriadedd Rhywiol). Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn gallu ymateb i'r cwestiynau yn unol â sut maent yn eu hystyried eu hunain a'u credoau.





- 16 - 24
- 25 - 34
- 35 - 44
- 45 - 54
- 55 - 64
- 65+



- Staff Anabl / Disabled Staff
- Staff Nad ydynt yn Anabl / Non-Disabled Staff
- Gwell gennyf beidio â dweud / Prefer Not to Say



- Du, Asiaidd, Lleiafrif Ethnig / Black, Asian, Ethnic Minority
- Gwell gennyf beidio â dweud / Prefer Not to Say
- Gwyn / White



**Sylwer:** Mae'r profiliau uchod yn seiliedig ar y data sydd gennym ar hyn o bryd, tra mae'r ffigyrau yn y tablau isod yn cynnwys yr holl staff – gan gynnwys lle nad oes gennym ddata monitro cydraddoldeb ar hyn o bryd (y tu hwnt i oedran a rhyw). Wrth i'n sefyllfa parthed data monitro cydraddoldeb barhau i wella'n flynyddol, bydd y data isod yn darparu cynrychiolaeth gywirach o'n gweithlu.

**Tabl 1 – Nifer y Gweithwyr Parhaol neu Gyfnod Penodol ar 31 Mawrth 2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm	Ystod Oedran						Rhywedd		Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol	Lleiafrif Ethnig	Trawsryweddol	Beichiogrwydd a Mamolaeth
		16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Benyw	Gwryw						
Archwilio a Chaffael	11	*	*	*	5	*	*	9	*	*	9	*	*	*	*
Swyddfa'r Prif Weithredwr	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	180	*	41	46	50	37	*	147	33	13	79	*	9	*	14
Cyllid Corfforaethol	105	*	14	28	41	17	*	76	29	*	53	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	347	23	66	76	84	80	18	219	128	8	152	10	7	*	10
Addysg	2,010	62	348	537	554	455	54	1,688	322	18	1,131	11	27	*	85
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	500	14	52	95	136	169	34	138	362	11	234	*	14	*	*
Technoleg Gwybodaeth	71	*	12	21	20	13	*	15	56	*	26	*	*	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	610	15	99	137	143	188	28	512	98	29	301	13	19	*	24
Y Gyfraith a Llywodraethu	67	*	16	22	16	8	*	59	8	*	33	*	*	*	8
Pobl a Pherfformiad	38	*	*	10	15	6	*	28	10	*	24	*	*	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	145	*	20	34	47	39	*	95	50	7	69	7	6	*	*
<b>Cyfanswm CBSC</b>	<b>4,089</b>	<b>129</b>	<b>673</b>	<b>1,010</b>	<b>1,113</b>	<b>1,016</b>	<b>148</b>	<b>2,990</b>	<b>1,099</b>	<b>93</b>	<b>2,115</b>	<b>50</b>	<b>86</b>	<b>8</b>	<b>152</b>

Sylwer: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 1 yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn barhaol neu am gyfnod penodol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2023 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd barhaol neu dymor penodol).

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth.

**Tabl 1a – Nifer y Gweithwyr Parhaol neu Gyfnod Penodol ar 31 Mawrth 2023 yn ôl crefydd a chred**

Gwasanaeth	Cyfanswm	Agnostig	Anffyddiwr	Bwdhydd	Cristion	Conffwisiaeth	Hindŵ	Tyst Jehofa	Iddew	Mwslim	Dim Crefydd	Heb ei Nodi	Arall
Archwilio a Chaffael	11	*	*	*	5	*	*	*	*	*	*	5	*
Swyddfa'r Prif Weithredwr	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	180	*	7	*	64	*	*	*	*	*	66	32	6
Cyllid Corfforaethol	105	*	*	*	52	*	*	*	*	*	27	17	*
Economi a Diwylliant	347	7	10	*	109	*	*	*	*	*	93	122	*
Addysg	2,010	17	24	*	255	*	*	*	*	*	158	1,537	15
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	500	8	20	*	204	*	*	*	*	*	128	133	6
Technoleg Gwybodaeth	71	*	7	*	20	*	*	*	*	*	34	5	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	610	6	24	*	226	*	*	*	*	*	184	156	10
Y Gyfraith a Llywodraethu	67	*	*	*	24	*	*	*	*	*	11	28	*
Pobl a Pherfformiad	38	*	*	*	18	*	*	*	*	*	12	6	*
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	145	*	5	*	54	*	*	*	*	*	45	40	*
<b>Cyfanswm CBSC</b>	<b>4,089</b>	<b>52</b>	<b>101</b>	<b>4</b>	<b>1,031</b>	<b>1</b>	<b>2</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>5</b>	<b>762</b>	<b>2,083</b>	<b>45</b>

Sylwer: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 1a yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn barhaol neu am gyfnod penodol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2023 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd barhaol neu dymor penodol).

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth.



**Tabl 2 – Nifer y Gweithwyr Achlysurol ar 31 Mawrth 2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm	Ystod Oedran						Rhywedd		Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw, Lesbiaidd, Deurywiol	Lleiafrif Ethnig	Trawsryweddol	Beichiogrwydd a Mamolaeth
		16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Benyw	Gwryw						
Plant, Teuluoedd a Diogelu	66	*	13	17	20	14	*	57	9	*	27	*	*	*	*
Cyllid Corfforaethol	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	327	124	62	43	35	44	19	191	136	8	80	12	*	*	*
Addysg	990	79	184	241	235	205	46	834	156	*	495	*	6	*	15
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	18	*	*	*	*	7	*	12	6	*	11	*	*	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	71	5	12	16	11	18	9	58	13	*	26	*	*	*	*
Y Gyfraith a Llywodraethu	11	*	*	*	*	*	6	6	5	*	9	*	*	*	*
<b>Cyfanswm CBSC</b>	<b>1,484</b>	<b>209</b>	<b>273</b>	<b>322</b>	<b>306</b>	<b>289</b>	<b>85</b>	<b>1,159</b>	<b>325</b>	<b>18</b>	<b>649</b>	<b>16</b>	<b>12</b>	<b>2</b>	<b>17</b>

\*Sylwer: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 2 yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn achlysurol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2023 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd achlysurol). Yr ydym wedi cyflawni gwaith helaeth gydag Addysg i gael gwared ag athrawon llanw sydd heb weithio mewn 12 mis (18 mis oedd hyn o'r blaen), ac mae hyn wedi achosi newid yn niferoedd gweithwyr achlysurol.


## Tabl 2a – Nifer y Gweithwyr Achlysurol ar 31 Mawrth 2023 yn ôl crefydd a chred

Sylwer: Mae nifer y gweithwyr a gyfrifwyd yn Nhabl 2a yn seiliedig ar nifer yr unigolion a gyflogid yn achlysurol gan Gonwy ar 31 Mawrth 2023 (wedi eu cyfrif unwaith, er efallai bod ganddynt fwy nag un swydd achlysurol).

Gwasanaeth	Cyfanswm	Agnostig	Anffyddiwr	Bwdhydd	Cristion	Tyst Jehofa	Iddew	Dim Crefydd	Heb ei Nodi	Arall
Plant, Teuluoedd a Diogelu	65	*	5	*	22	*	*	27	10	*
Economi a Diwylliant	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Addysg	323	13	19	*	111	*	*	101	77	*
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	983	*	6	*	92	*	*	82	799	7
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	18	*	*	*	9	*	*	5	*	*
Y Gyfraith a Llywodraethu	70	*	*	*	21	*	*	20	25	*
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	11	*	*	*	*	*	*	*	*	*
<b>Cyfanswm CBSC</b>	<b>1,484</b>	<b>19</b>	<b>33</b>	<b>1</b>	<b>259</b>	<b>1</b>	<b>1</b>	<b>238</b>	<b>919</b>	<b>13</b>

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth


**Proffil Oedran Gweithlu Conwy, 31 Mawrth 2023**



Mae'r siart uchod yn dangos proffil oedran ein gweithlu yn 2022-2023, ac mae'r tabl isod yn dangos y ffigyrau hyn ochr yn ochr â'r ffigyrau ar gyfer y flwyddyn gynt er mwyn amlygu'r newid o un flwyddyn i'r llall:

Grŵp Oedran	2021-22 (%)	2022-23 (%)
16-24	6	6
25-34	18	16
35-44	23	24
45-54	26	25
55-64	23	24
65+	4	5

**Proffil Oedran (%) y Gweithlu yn ôl y Math o Contract, 31 Mawrth 2023**



	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+
<b>Cyfnod Penodol / Parhaol</b>	3%	16%	25%	27%	25%	4%
<b>Achlysurol</b>	14%	18%	22%	21%	19%	6%
<b>Yn gyffredinol</b>	6%	17%	24%	25%	23%	4%

Mae 66% o'r gweithlu parhaol a gweithlu cyfnod penodol yng ngrwpiau oedran 25-34 (15%), 35-44 (24%) a 45-54 (27%) (% lai nag yn 2021-22), tra bod 30% o'r gweithlu parhaol a chyfnod penodol yng ngrwpiau oedran 55-64 a 65+ (o gymharu â 29% yn 2021-22). Mae proffil oedran staff achlysurol yn debyg i'r flwyddyn gynt. Yr oedd 33% o'r gweithlu achlysurol rhwng 16 a 34 mlwydd oed, o gymharu â 32% yn 2021-22. Yr oedd 25% o'r gweithlu achlysurol yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn – yr un ganran ag yn 2021-22.

Yr ydym yn bwriadu datblygu data cynllunio gweithlu a gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth ymhellach wrth symud ymlaen.

## Proffil Ethnigrwydd Gweithlu Conwy heb ei Agregu (Parhaol, Cyfnod Penodol ac Achlysurol), 31 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn dangos proffil ethnigrwydd ein gweithlu heb ei agregu, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023, o gymharu â phroffil oedran gweithio cymharol poblogaeth Conwy (pobl sy'n byw yn y sir ac sydd rhwng 16 a 64 mlwydd oed) o Gyfrifiad 2021. Mae colofn 'Y Gweithlu – Data a Gedwir' yn dangos hyn fel cyfran o'n gweithlu y mae gennym ddata ar ei gyfer ar hyn o bryd (ac eithrio pobl lle nad oes gennym ddata amdanynt ar hyn o bryd). Mae colofn 'Y Gweithlu – Cyffredinol' yn dangos hyn fel cyfran o'n gweithlu cyfan (gan gynnwys pobl nad oes gennym ddata ar eu cyfer ar hyn o bryd) – fel y dangosir gan y golofn sydd â chyfanswm o 58.5%. Byddwn yn gallu defnyddio'r tabl hwn yn y dyfodol fel meincnod ar gyfer ein gwaith gwrth-hiliaeth, wrth i ni barhau i weithio tuag at Gymru wrth-hiliol erbyn 2030.

	Y Gweithlu – Data a Gedwir (%) (Ac eithrio lle nad oes gennym ddata)	Y Gweithlu – Cyffredinol (%) (Gan gynnwys lle nad oes gennym ddata)	% o Boblogaeth Oedran Gweithio Conwy (Cyfrifiad 2021)
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Bangladeshaidd	0.00	0.00	0.00
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Tsieineaidd	0.22	0.13	0.14
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Indiaidd	0.11	0.06	0.07
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Pacistanaidd	0.07	0.04	0.00
Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig: Cefndir Asiaidd Arall	0.22	0.13	0.20
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: Affricanaidd	0.18	0.11	0.00
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: Caribïaidd	0.00	0.00	0.00
Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd: Cefndir Du Arall	0.00	0.00	0.00
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Gwyn ac Asiaidd	0.14	0.08	0.08
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Gwyn a Du Affricanaidd	0.11	0.06	0.00
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Gwyn a Du Caribïaidd	0.33	0.19	0.00
Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog: Cefndir Cymysg neu Grwpiau ethnig lluosog eraill	0.36	0.21	0.03
Gwyn: Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig	95.80	56.05	96.34
Gwyn: Gwyddelig	0.47	0.28	0.49

	Y Gweithlu – Data a Gedwir (%) (Ac eithrio lle nad oes gennym ddata)	Y Gweithlu – Cyffredinol (%) (Gan gynnwys lle nad oes gennym ddata)	% o Boblogaeth Oedran Gweithio Conwy ( <a href="#">Cyfrifiad 2021</a> )
Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	0.00	0.00	0.00
Gwyn: Roma	0.00	0.00	0.00
Gwyn: Cefndir Gwyn Arall	1.52	0.89	2.66
Grŵp Ethnig Arall: Arabaidd	0.00	0.00	0.00
Grŵp Ethnig Arall: Unrhyw grŵp ethnig arall	0.00	0.00	0.00
Wedi dewis peidio â dweud	0.47	0.28	-
Dim Data	Amh.	41.5	Amh.
<b>Cyfanswm</b>	100.00	58.5	100.00

Ar 31 Mawrth 2023 yr oedd gennym y data canlynol yn ôl nodweddion gwarchoddedig ar gyfer staff Conwy:

Nodwedd Warchoddedig	Data Cydraddoldeb a Gedwir	Data Cydraddoldeb a Gedwir – Newid o 2021-22	% o'r Holl Weithwyr	% o Weithwyr Cyfnod Penodol / Parhaol	% o Weithwyr Achlysurol
<b>Rhyw</b>	100%	Dim Newid			
Gwryw			27%	27%	22%
Benyw			73%	73%	78%
<b>Oedran</b>	100%	Dim Newid			
16-24			6%	3%	14%
25-34			16%	16%	18%
35-44			24%	25%	22%
45-54			25%	27%	21%
55-64			24%	25%	19%
65+			5%	4%	6%
<b>Anabledd</b>	54.1%	+2.1%			
Staff Anabl			2.16%	2.27%	1.21%
Wedi dewis peidio â dweud			1.31%	1.27%	1.15%
<b>Hil</b>	58.5%	+3.6%			
Staff o Leiafrifoedd Ethnig			2.18%	2.10%	1.68%
Wedi dewis peidio â dweud			0.28%	0.24%	0.27%
<b>Statws Priodasol / Partneriaeth Sifil</b>	99.4%	+0.3%			
Staff Priod neu mewn Partneriaeth Sifil			49.69%	51.72%	43.73%
Wedi dewis peidio â dweud			0.40%	0.32%	0.54%
<b>Crefydd / Cred</b>	51.1%	+4.3%			
Crefydd wedi ei nodi			48.40%	49.06%	38.07%
Wedi dewis peidio â dweud			2.69%	2.71%	1.55%
<b>Cyfeiriadedd Rhywiol</b>	50.9%	+4.4%			
Staff Lesbïaidd / Hoyw / Deurywiol			1.29%	1.22%	1.08%
Wedi dewis peidio â dweud			2.86%	2.69%	2.49%
<b>Ailbennu Rhywedd</b>	47.7%	+5.1%			
Staff trawsryweddol			0.21%	0.20%	0.13%
Wedi dewis peidio â dweud			0.36%	0.34%	0.27%
<b>Beichiogrwydd / Mamolaeth*</b>	-	-			
Bechiog neu ar Gyfnod Mamolaeth			4.91%	5.08%	1.47%

\*Canran o weithwyr benywaidd

Mae gwaith i wella data monitro cydraddoldeb yn mynd rhagddo'n barhaus, ac yr ydym ar hyn o bryd yn datblygu arolwg i geisio sicrhau bod y data sydd gennym yn gyfredol ac yn gyflawn, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Yr ydym, yn rhan o hyn, yn adolygu'r dewisiadau ymateb a gynigir (yn yr arolwg, a phan gesglir data yn rhan o'r ffurflen gais) i sicrhau bod dewisiadau i bobl allu ysgrifennu eu hateb eu hunain fel bo'n briodol (e.e. mewn perthynas â Chyfeiriadedd Rhywiol). Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn gallu ymateb i'r cwestiynau yn unol â sut maent yn eu hystyried eu hunain a'u credoau. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar fod unigolion yn dymuno datgelu eu hunaniaeth, a gall hynny fod yn arbennig o sensitif ynghylch datganiadau anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Cynigir y cyfle i staff nodi bod yn 'well ganddynt beidio â dweud', ac eithrio ar gyfer nodweddion gwarchoddedig oedran a rhyw, sy'n ddata hanfodol at ddibenion cyflogaeth – er enghraifft, mae hyn yn berthnasol ar gyfer gofynion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi neu aelodaeth pensiwn.

Byddwn yn adolygu'r data a gasglwyd pan fydd yr arolwg wedi ei gwblhau er mwyn ystyried unrhyw gamau gweithredu eraill sydd eu hangen i wella'r broses barhaus o gasglu data (e.e. ceisio deall yn well pam mae rhai staff yn dewis bod yn 'well ganddynt beidio â dweud' pan ofynnir am ddatgelu gwybodaeth).


#### a. Dadansoddiad Rhywedd yn ôl Contract / Cyflog / Math o Swydd / Graddfa

Mae Tablau 3-6 isod yn seiliedig ar nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi o fewn Conwy, yn hytrach na bod yn seiliedig ar yr unigolion fel y dangosir yn Nhabl 1 a 2). Fel y nodwyd eisoes, mae gennym nifer fawr o weithwyr sydd â mwy nag un swydd, yn aml yn rhan-amser ac yn aml mewn mathau gwahanol o swyddi a gwahanol wasanaethau. Nid yw Conwy'n cyflogi 6,456 o weithwyr fel y dangosir yn y tablau isod – dyma gyfanswm y swyddi sydd wedi eu llenwi gan staff parhaol, staff cyfnod penodol a staff achlysurol.

### Math o Gontract

**Tabl 3 – Nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi yn ôl y Math o Gontract ar 31 Mawrth 2023**


Rhyw	Parhaol		Cyfnod Penodol		Achlysurol	Cyfanswm
	Llawm Amser	Rhan Amser	Llawm Amser	Rhan Amser	Oriau Amrywiol	
<b>Benyw</b>	1,154 (18%)	1,742 (27%)	205 (3%)	255 (4%)	1,522 (24%)	4,878 (76%)
<b>Gwryw</b>	828 (13%)	239 (4%)	67 (1%)	31 (0.5%)	413 (6%)	1,578 (24%)
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,982</b>	<b>1,981</b>	<b>272</b>	<b>286</b>	<b>1,935</b>	<b>6,456</b>



Mae 38% o ddynion a 62% o ferched mewn swyddi llawn amser (swyddi parhaol a chyfnod penodol) o gymharu â 12% o ddynion ac 88% o ferched mewn swyddi rhan amser (swyddi parhaol a chyfnod penodol) – dengys hyn na fu newid sylweddol ers y flwyddyn gynt. Yr ydym yn parhau o gyflogi ychydig mwy o staff rhan amser (50.1%) na staff llawn amser (49.9%) mewn swyddi parhaol a chyfnod penodol.



**Tabl 4 – Swyddi (nifer a chanran) sydd wedi eu llenwi yn ôl Ystod Gyflog ar 31 Mawrth 2023**



Rhyw	Cylog hyd at 16,000	Cylog 16,001 – 20,000	Cylog 20,001 – 24,000	Cylog 24,001 – 28,000	Cylog 28,001 – 32,000	Cylog 32,001 – 36,000	Cylog 36,001 – 40,000	Cylog 40,001 – 45,000	Cylog 45,001 – 50,000	Cylog 50,000+	Cyfanswm
<b>Benyw</b>	2,777 (83%)	404 (86%)	332 (54%)	318 (66%)	117 (68%)	220 (63%)	218 (78%)	143 (72%)	237 (71%)	112 (59%)	4,878 (76%)
<b>Gwryw</b>	589 (17%)	64 (14%)	281 (46%)	166 (34%)	56 (32%)	131 (37%)	61 (22%)	55 (28%)	98 (29%)	77 (41%)	1,578 (24%)
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,366</b>	<b>468</b>	<b>613</b>	<b>484</b>	<b>173</b>	<b>351</b>	<b>279</b>	<b>198</b>	<b>335</b>	<b>189</b>	<b>6,456</b>

(Mae'r tabl yn defnyddio cyflog pro rata)

Ar 31 Mawrth 2023 yr oedd 6,456 o swyddi wedi eu llenwi o fewn Conwy, 43% (2,777 o swyddi) ohonynt wedi eu llenwi gan weithwyr benywaidd yn derbyn cyflog o hyd at £16,000. Y gyfran gyfatebol y flwyddyn gynt oedd 49%. Mae dros hanner y swyddi a wneir gan ferched (57%), a thros draean (37%) y swyddi a wneir gan ddynion, o fewn yr ystod gyflog hyd at £16,000. Bu cynnydd bychan yng nghyfran y merched yn yr ystod gyflog £50,000 a throsodd yn y flwyddyn hon – yr oedd yn 59%, o

gymharu â 57% y flwyddyn gynt a 53% y flwyddyn cyn hynny. Mae hyn hefyd yn cynrychioli cynnydd yng nghyfanswm y staff benywaidd yn y band hwn, o 86 i 112, ac mae nifer y dynion yn y band hwn hefyd wedi cynyddu, o 64 i 77.

Mae 100% o'n swyddi Cyfarwyddwyr wedi eu llenwi gan ferched. Yr oedd 42% o swyddi Penaethiaid Gwasanaeth yn cael eu gwneud gan ddynion a 58% gan ferched. Mae'r swyddi yn yr ystod gyflog £50,000 ac uwch yn cynnwys: y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, Penaethiaid Ysgolion, Dirprwy Benaethiaid Ysgolion, Ymgynghorwyr / Arolygwyr Addysg, y rheiny sydd ar y ddau bwynt graddfa uchaf, G11 a G12.


**Tabl 5 – Nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi yn ôl y Math o Swydd ar 31 Mawrth 2023**

Rhyw	Gweinyddol a Chlercio	Gofal a Chymorth	Addysg	Rheoli	Gweithredol	Proffesiynol	Uwch Reolwyr	Technegol	Cyfanswm
Benyw	264 (88%)	937 (90%)	905 (79%)	100 (62%)	1,160 (69%)	359 (70%)	9 (60%)	1,144 (72%)	4,878 (76%)
Gwryw	35 (12%)	107 (10%)	237 (21%)	61 (38%)	526 (31%)	151 (30%)	6 (40%)	455 (28%)	1,578 (24%)
<b>Cyfanswm</b>	<b>299</b>	<b>1,044</b>	<b>1,142</b>	<b>161</b>	<b>1,686</b>	<b>510</b>	<b>15</b>	<b>1,599</b>	<b>6,456</b>

Sylwer: Mae 'Rheoli' a 'Phroffesiynol' ill dau'n cynnwys pobl sy'n rheoli gweithwyr.

Mae 62% (100) o swyddi rheoli yn cael eu gwneud gan weithwyr benywaidd a 38% (61) yn cael eu gwneud gan weithwyr gwrywaidd. Mae 60% (9) o swyddi uwch reolwyr yn cael eu gwneud gan ferched a 40% (6) gan ddynion. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd bychan yng nghyfran y merched mewn swyddi Rheoli ac Uwch Reolwyr o gymharu â'r flwyddyn gynt (61% o swyddi Rheoli, 59% o swyddi Uwch Reolwyr). O'u cymharu â phroffil cyffredinol y gweithlu, sef 73% o weithwyr benywaidd a 27% o weithwyr gwrywaidd, mae gweithwyr gwrywaidd yn dal i fod wedi eu tangynrychioli mewn swyddi Gweinyddol a Chlercio, Gofal a Chymorth, ac Addysg. Mewn cymhariaeth, mae gweithwyr benywaidd yn dal i fod wedi eu tangynrychioli mewn swyddi Rheoli ac Uwch Reolwyr o gymharu â phroffil cyffredinol y gweithlu.

## Canran y Dynion / Merched yn ôl Math o Swydd ar 31 Mawrth 2023



**Tabl 6 – Nifer y swyddi sydd wedi eu llenwi yn ôl Graddfa ar 31 Mawrth 2023 (yn cynnwys Llawn Amser, Rhan Amser ac Achlysurol)**


Rhyw	G01	G02	G03	G04	G05	G06	G07	G08	G09	G10	G11	G12
Benyw	1,519 (84%)	578 (68%)	246 (69%)	492 (74%)	438 (75%)	209 (61%)	100 (61%)	190 (79%)	62 (69%)	45 (56%)	6 (60%)	20 (56%)
Gwryw	282 (16%)	272 (32%)	108 (31%)	173 (26%)	145 (25%)	135 (39%)	64 (39%)	50 (21%)	28 (31%)	35 (44%)	4 (40%)	16 (44%)
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,801</b>	<b>850</b>	<b>354</b>	<b>665</b>	<b>583</b>	<b>344</b>	<b>164</b>	<b>240</b>	<b>90</b>	<b>80</b>	<b>10</b>	<b>36</b>

Rhyw	Uwch Reolwyr	Pennaeth / Dirprwy Bennaeth	Athro / Athrawes	Ymgynghorydd Addysg	Gweithiwr Ieuenctid	Prentis Modern	Amrywiol	Cyfanswm ar gyfer yr holl raddfeydd
Benyw	9 (60%)	93 (62%)	803 (82%)	9 (64%)	16 (62%)	5 (63%)	38 (79%)	4,878 (76%)
Gwryw	6 (40%)	56 (38%)	176 (18%)	5 (36%)	10 (38%)	3 (38%)	10 (21%)	1,578 (24%)

Rhyw	Uwch Reolwyr	Pennaeth / Dirprwy Bennaeth	Athro / Athrawes	Ymgynghorydd Addysg	Gweithiwr Ieuenctid	Prentis Modern	Amrywiol	Cyfanswm ar gyfer yr holl raddfeydd
Cyfanswm	15	149	979	14	26	8	48	6,456

Mae 'Ymgynghorydd Addysg' yn cynnwys gweithwyr nad ydynt wedi eu lleoli mewn ysgolion megis Arolygwyr Addysg a Seicolegwyr.

Mae 28% o'r holl swyddi ledled y Cyngor yn rhai Graddfa G01 ac, o'r rheiny, merched sy'n gwneud 86% ohonynt ac mae dynion yn gwneud 14% – dengys hyn nad oes llawer o newid ers y flwyddyn gynt. O fewn Graddfeydd G04, G05 a G08, mae'r rhaniad rhwng dynion a merched fwy neu lai'n adlewyrchu proffil y gweithlu, sef 77:27. O gymharu â phroffil cyffredinol y gweithlu, mae merched yn cael eu tangynrychioli yn ôl cyfran yng Ngraddfeydd G02, G03, G06, G07, G09, G10, G11 a G12 ac fel Pennaethiaid / Dirprwy Bennaethiaid (62%), Uwch Reolwyr (60%) a Phrentisiaid Modern (63%). Mae dynion yn cael eu tangynrychioli yng Ngraddfa G01 (16%) ac ym maes Addysgu (18%).



## 5. Recriwtio a Dyrchafu

Mae'r holl geisiadau am swyddi yn cael eu mewnbynnu'n awtomatig ar system AD / Cyflogau drwy'r system recriwtio ar y we. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi gwybodaeth orfodol am gydraddoldeb yn rhan o'r broses (gyda'r dewis i ymateb bod yn 'well ganddynt beidio â dweud' i rai o'r cwestiynau). Mae gwybodaeth monitro cydraddoldeb ar gael i staff Adnoddau Dynol yn unig ac fe'i hystyrir yn ddata sensitif.

Nid yw manylion personol ymgeiswyr yn cael eu rhannu gyda rheolwyr recriwtio tan ar ôl llunio rhestr fer, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu na rhagfarn yn y broses llunio rhestr fer a bod y broses honno'n seiliedig ar y manylion a ddarparwyd yn y ffurflen gais, ac nid ar yr unigolyn. Yr ydym ar hyn o bryd yn adolygu'r camau y gellir eu cymryd o fewn i Trent i wneud y manylion hyn yn fwy anhysbys drwy gydol y broses o lunio rhestr fer (e.e. drwy gael gwared â chyfeiriadau e-byst a allai beri i rywun gael ei adnabod). Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, hysbysebwyd 1,097 o swyddi, gan gynnwys swyddi a gafodd eu hailhysbysebu ac achosion lle'r oedd nifer o swyddi gweigion ar gyfer un hysbyseb swydd. Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn gynt, pan hysbysebwyd 1,022 o swyddi, ond mae'n dal i fod yn uchel o gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny (572 yn 2020-21, 504 yn 2019-20 a 470 yn 2018-19). Cafodd 463 o'r swyddi a hysbysebwyd yn 2022-23 eu hysbysebu fwy nag unwaith.

Gwneir pob dyrchafiad yn ôl swydd wag a nodwyd, sydd wedi ei hysbysebu a'r broses recriwtio arferol wedi ei dilyn, ac yr ydym yn gwahaniaethu rhwng swyddi gweigion mewnol ac allanol yn y tablau isod i ddangos dyrchafiadau mewnol.

**Tabl 7 – Pob Swydd Wag a Hysbysebwyd yn 2022-2023**

Gwasanaeth	Swyddi a Hysbysebwyd
Archwilio a Chaffael	4
Plant, Teuluoedd a Diogelu	80
Cyllid Corfforaethol	16
Gwasanaethau Corfforaethol	1
Economi a Diwylliant	296
Addysg	292
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	161
Technoleg Gwybodaeth	18
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	180
Y Gyfraith a Llywodraethu	11
Pobl a Pherfformiad	10
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	28
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,097</b>
Mae hyn yn cynnwys hysbysebion ar gyfer swyddi llawn amser, rhan amser ac achlysurol, ac mae'n cynnwys swyddi sydd wedi eu hailhysbysebu.	

**Tabl 8a – Ymgeiswyr Allanol am Gyflogaeth yn ystod 2022-2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Allanol	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	13	7	6	*	*	5	5	*	*	*	*	*	*	6	*	12
Plant, Teuluoedd a Diogelu	137	24	113	*	13	54	29	23	15	*	*	8	7	40	*	78
Cyllid Corfforaethol	22	13	9	*	*	5	*	6	*	*	*	*	*	8	*	12
Gwasanaethau Corfforaethol	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	438	212	225	*	199	100	60	43	32	*	*	12	27	71	24	221
Addysg	725	143	581	*	133	279	151	118	40	*	*	13	19	212	28	342
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	271	225	45	*	55	65	48	49	44	9	*	5	15	89	6	157
Technoleg Gwybodaeth	32	31	*	*	7	15	*	*	*	*	*	*	*	7	*	12
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	355	101	254	*	49	118	84	65	35	*	*	14	39	116	21	176
Y Gyfraith a Llywodraethu	32	11	21	*	5	13	*	8	*	*	*	*	*	*	*	18
Pobl a Pherfformiad	29	7	22	*	7	9	*	6	*	*	*	*	*	14	*	19
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	64	20	44	*	11	23	17	6	6	*	*	*	6	26	*	32
<b>Cyfanswm</b>	<b>2,119</b>	<b>794</b>	<b>1,322</b>	<b>3</b>	<b>483</b>	<b>686</b>	<b>408</b>	<b>331</b>	<b>182</b>	<b>26</b>	<b>3</b>	<b>54</b>	<b>120</b>	<b>593</b>	<b>93</b>	<b>1,080</b>

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth

**Tabl 8b – Ymgeiswyr Mewnol am Gyflogaeth a / neu Ddyrchafiad yn ystod 2022-2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Mewnol	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	7	*	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5	*	6
Plant, Teuluoedd a Diogelu	89	14	75	*	*	36	27	16	9	*	*	5	5	37	*	56
Cyllid Corfforaethol	9	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Gwasanaethau Corfforaethol	2	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	245	90	155	*	120	47	33	17	26	*	*	*	10	51	10	131
Addysg	441	79	362	*	37	153	127	85	34	5	*	8	5	167	10	209
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	128	103	25	*	11	25	35	22	30	5	*	*	*	59	*	86
Technoleg Gwybodaeth	38	35	*	*	9	15	7	7	*	*	*	*	*	*	*	21
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	191	30	161	*	13	42	58	48	29	*	*	*	13	70	*	91
Y Gyfraith a Llywodraethu	9	*	7	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Pobl a Pherfformiad	9	*	7	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5	*	5
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	32	9	23	*	*	11	7	8	*	*	*	*	*	16	*	16
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,200</b>	<b>373</b>	<b>827</b>	<b>0</b>	<b>197</b>	<b>336</b>	<b>299</b>	<b>220</b>	<b>134</b>	<b>14</b>	<b>0</b>	<b>17</b>	<b>39</b>	<b>421</b>	<b>30</b>	<b>632</b>

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth

**Tabl 8c – Cyfanswm yr Ymgeiswyr am Gyflogaeth a / neu Ddyrchafiad yn ystod 2022-2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbïaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	20	9	11	*	*	6	7	6	*	*	*	*	*	11	*	18
Plant, Teuluoedd a Diogelu	226	38	188	*	14	90	56	39	24	*	*	13	12	77	*	134
Cyllid Corfforaethol	31	19	12	*	6	7	*	9	*	*	*	*	*	12	*	17
Gwasanaethau Corfforaethol	3	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	683	302	380	*	319	147	93	60	58	6	*	14	37	122	34	352
Addysg	1,166	222	943	*	170	432	278	203	74	9	*	21	24	379	38	551
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	399	328	70	*	66	90	83	71	74	14	*	6	18	148	7	243
Technoleg Gwybodaeth	70	66	*	*	16	30	11	11	*	*	*	*	*	11	6	33
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	546	131	415	*	62	160	142	113	64	*	*	15	52	186	25	267
Y Gyfraith a Llywodraethu	41	13	28	*	6	16	*	12	*	*	*	*	*	*	*	23
Pobl a Pherfformiad	38	9	29	*	8	10	5	10	5	*	*	*	*	19	*	24
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	96	29	67	*	13	34	24	14	10	*	*	*	8	42	6	48
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,319</b>	<b>1,167</b>	<b>2,149</b>	<b>3</b>	<b>680</b>	<b>1,022</b>	<b>707</b>	<b>551</b>	<b>316</b>	<b>40</b>	<b>3</b>	<b>71</b>	<b>159</b>	<b>1,014</b>	<b>123</b>	<b>1,712</b>

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth



**Tabl 9a – Ymgeiswyr Allanol ar Restr Fer am Gyflogaeth yn ystod 2022-2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Allanol ar Restr Fer	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbïaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Plant, Teuluoedd a Diogelu	75	16	59	*	7	29	15	11	10	*	*	*	*	22	*	44
Cyllid Corfforaethol	12	6	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	6
Gwasanaethau Corfforaethol	0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	284	133	150	*	131	64	36	28	22	*	*	7	18	46	14	143
Addysg	206	44	161	*	33	70	49	34	19	*	*	*	5	69	7	88
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	130	101	29	*	23	34	20	24	23	6	*	*	*	51	*	82
Technoleg Gwybodaeth	16	15	*	*	*	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	205	42	163	*	25	62	53	36	25	*	*	7	25	72	6	97
Y Gyfraith a Llywodraethu	26	8	18	*	5	10	*	7	*	*	*	*	*	*	*	15
Pobl a Pherfformiad	12	*	11	*	*	*	*	5	*	*	*	*	*	6	*	8
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	34	9	25	*	5	11	9	*	*	*	*	*	5	14	*	16
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,006</b>	<b>377</b>	<b>627</b>	<b>2</b>	<b>238</b>	<b>290</b>	<b>196</b>	<b>155</b>	<b>107</b>	<b>18</b>	<b>2</b>	<b>21</b>	<b>65</b>	<b>293</b>	<b>33</b>	<b>508</b>

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth

**Tabl 9b – Ymgeiswyr Mewnol ar Restr Fer am Gyflogaeth a / neu Ddyrchafiad yn ystod 2022-2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Mewnol ar Restr Fer	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	73	10	63	*	*	30	20	14	8	*	*	*	5	30	*	45
Cyllid Corfforaethol	8	6	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Corfforaethol	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	221	81	140	*	104	46	30	15	24	*	*	*	9	45	9	116
Addysg	243	52	191	*	24	78	72	40	25	*	*	*	*	94	*	109
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	108	84	24	*	10	22	25	20	27	*	*	*	*	49	*	71
Technoleg Gwybodaeth	28	26	*	*	6	11	5	6	*	*	*	*	*	*	*	12
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	152	25	127	*	9	31	46	41	24	*	*	*	11	60	*	71
Y Gyfraith a Llywodraethu	9	*	7	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Pobl a Pherfformiad	8	*	7	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	28	8	20	*	*	8	6	8	*	*	*	*	*	15	*	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>884</b>	<b>297</b>	<b>587</b>	<b>0</b>	<b>160</b>	<b>233</b>	<b>208</b>	<b>158</b>	<b>113</b>	<b>12</b>	<b>0</b>	<b>10</b>	<b>33</b>	<b>310</b>	<b>23</b>	<b>455</b>

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth

**Tabl 9c – Cyfanswm yr Ymgeiswyr ar Restr Fer am Gyflogaeth a / neu Ddychafiad yn ystod 2022-2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr ar Restr Fer	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	11	*	8	*	*	*	5	*	*	*	*	*	*	7	*	9
Plant, Teuluoedd a Diogelu	148	26	122	*	8	59	35	25	18	*	*	5	8	52	*	89
Cyllid Corfforaethol	20	12	8	*	5	*	*	5	*	*	*	*	*	7	*	10
Gwasanaethau Corfforaethol	1	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	505	214	290	*	235	110	66	43	46	5	*	9	27	91	23	259
Addysg	449	96	352	*	57	148	121	74	44	5	*	5	7	163	11	197
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	238	185	53	*	33	56	45	44	50	10	*	*	7	100	*	153
Technoleg Gwybodaeth	44	41	*	*	10	16	8	10	*	*	*	*	*	7	*	16
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	357	67	290	*	34	93	99	77	49	*	*	8	36	132	10	168
Y Gyfraith a Llywodraethu	35	10	25	*	6	13	*	11	*	*	*	*	*	*	*	20
Pobl a Pherfformiad	20	*	18	*	*	*	*	8	*	*	*	*	*	10	*	12
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	62	17	45	*	7	19	15	12	8	*	*	*	7	29	*	30
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,890</b>	<b>674</b>	<b>1,214</b>	<b>2</b>	<b>398</b>	<b>523</b>	<b>404</b>	<b>313</b>	<b>220</b>	<b>30</b>	<b>2</b>	<b>31</b>	<b>98</b>	<b>603</b>	<b>56</b>	<b>963</b>

Mae'r niferoedd o dan bump wedi eu disodli gan \* i ddiogelu hunaniaeth

**Tabl 10a – Ymgeiswyr Allanol a Benodwyd yn ystod 2022-2023**

Gwasanaeth	Cyfanswm yr Ymgeiswyr Allanol a Benodwyd	Gwryw	Benyw	Rhyw heb ei nodi	16-24 oed	25-34 oed	35-44 oed	45-54 oed	55-64 oed	65+ oed	Oedran heb ei nodi	Lleiafrif Ethnig	Anabl	Priod / Partneriaeth Sifil	Hoyw / Lesbiaidd / Deurywiol	Crefydd wedi ei nodi
Archwilio a Chaffael	2	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Plant, Teuluoedd a Diogelu	6	*	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Cyllid Corfforaethol	4	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Corfforaethol	0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Economi a Diwylliant	27	9	18	*	11	9	*	*	*	*	*	*	*	*	*	15
Addysg	49	13	36	*	10	17	11	8	*	*	*	*	*	18	*	23
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	10	8	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	6	*	*
Technoleg Gwybodaeth	2	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol Integredig	18	5	13	*	*	6	*	*	*	*	*	*	*	11	*	12
Y Gyfraith a Llywodraethu	6	*	5	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	5
Pobl a Pherfformiad	0	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	3	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*	*
